

Huw Irranca-Davies AC/AM
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ Our ref: MA - L/HID/0442/18

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

18 Medi 2018

Annwyl bawb,

Y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Diolch yn fawr i'r pwyllgor am ei ystyriaeth o oblygiadau ariannol Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad, a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2018.

Ceir ymateb mwy manwl i'r argymhellion a'r casgliadau yn yr adroddiad yn Atodiad A. Rwy'n falch bod y pwyllgor yn cefnogi'r opsiwn a ffeirir gennym, sef defnyddio arbenigedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) ac adeiladu ar system sy'n bodoli eisoes, gan gydnabod y potensial yn y Bil i ddarparu system Cymreig bwrpasol yn y dyfodol.

Rwy'n gwerthfawrogi'r geiriau o rybudd gan y pwyllgor ynghylch cynnydd mewn costau ac rwy'n awyddus i bwysleisio fy ymrwymiad parhaus i fonitro costau'n ofalus iawn a rhoi diweddariad i'r pwyllgor pan ddaw unrhyw wybodaeth i law.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i dynnu eich sylw at newid sydd ar y gweill i'r trefniadau ar gyfer ail flwyddyn y broses o weithredu'r cynnig yn gynnar.

Yn y flwyddyn gyntaf, gwnaeth pob awdurdod lleol ymgymryd â'r broses lawn ei hunain, gan gynnwys asesu'r ceisiadau a phrosesu taliadau i ddarparwyr gofal plant. Ar gyfer y cyfnod sy'n weddill, nes bod y cynnig yn cael ei gyflwyno'n gyffredinol yn 2020, byddwn yn gofyn i'r awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth - gydag un awdurdod yn derbyn ac yn prosesu ceisiadau ar ran awdurdodau eraill ac yn gwneud y taliadau perthnasol. Hynny er mwyn lleihau gymaint â phosibl y costau suddedig (costau a ysgwyddwyd ond na ellir eu hadennill) ar gyfer dull na fyddwn yn ei weithredu yn y pen draw ac i sicrhau'r arbedion mwyaf i drethdalwyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y dull gweithredu hwn yn cael ei ychwanegu i Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil fel pumed opsiwn yn ystod Cyfnod 2. Caiff y data eu rhannu cyn gynted ag y bydd ar gael, ond nid oes disgwyl i'r data hyn wneud gwahaniaeth sylweddol i'r cydbwysedd o ran costau rhwng yr opsiwn a ffefrir gennym, sef defnyddio CThEM, a'r opsiynau eraill.

Rwyf hefyd wedi nodi pwyntiau'r pwyllgor ynghylch allgáu digidol a gall y pwyllgor gyfeirio at fy ymateb i argymhelliad 15 o adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n ymdrin â'r mater hwn.

Edrychaf ymlaen at y ddadl ynghylch yr egwyddorion cyffredinol a hefyd at barhau i weithio gyda'r Pwyllgor Cyllid wrth i'r Bil fynd rhagddo.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol er gwybodaeth.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Huw', with a horizontal line underneath it.

Huw Irranca-Davies AC/AM

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gostau CThEM i ddatblygu a darparu Cynnig Gofal Plant Cymru yn ei lwyfan presennol wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rwyf wedi ymrwmo i ddiweddarau Aseiad Effaith Rheoleiddiol y Bil wrth i CThEM ddarparu amcangyfrifon mwy pendant o'r costau.

Gwnaeth CThEM ddarparu amcangyfrif lefel uchel o'r costau ar gyfer darparu cynnig gofal plant Cymru ym mis Tachwedd 2017. Byddwn yn parhau i weithio gyda CThEM i sicrhau bod y costau'n adlewyrchu ein gofynion llawn a'u bod nhw'n gallu gwneud gwaith mwy manwl gyda chyflenwyr er mwyn darparu costau. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am gostau CThEM wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.

Gall y pwyllgor hefyd gyfeirio at fy ymateb i argymhelliad 29 o adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n ymwneud ag effaith bosibl newid i'r meini prawf cymhwysra ar gostau CThEM.

Casgliad 1

Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i thrafodaethau â CThEM, i'w gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth Cymraeg weithredu yng Nghymru, gan sicrhau swyddi yng Nghymru a chefnogi safonau'r Gymraeg.

Rwy'n cytuno â'r casgliad hwn. Byddaf yn annog CThEM i weithredu'r agweddau nad ydynt yn ddigidol a'r cymorth cefn swyddfa ar gyfer yr elfen Gymraeg o'r gwasanaeth ymgeisio a gwirio cymhwysra ar gyfer y cynnig, o un o'u swyddfeydd yng Nghymru.

Un o'r opsiynau y mae CThEM yn eu hystyried ar gyfer darparu'r gwasanaeth dwyieithog yw defnyddio eu canolfan gyswllt gyfredol ym Mhorthmadog.

Mae'r ganolfan gyswllt ym Morthmadog yn darparu ystod o wasanaethau Cymraeg i gwsmeriaid CThEM sy'n dymuno cyfathrebu'n Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau ffôn a gohebu Cymraeg. Mae 23 o staff gwasanaethau cwsmeriaid llawnamser yn gweithio yno sydd wedi'u hyfforddi i lefel uchel.

O ran Safonau'r Gymraeg, mae CThEM wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog ar gyfer y cynnig. Mae swyddogion wedi cwrdd â CThEM ar sawl achlysur ac mae trafodaethau manwl yn parhau ynghylch ein disgwyliadau a gofynion Safonau'r Gymraeg. Yn ogystal, mae swyddogion wedi cwrdd â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i drafod hyn a nifer o faterion eraill yn ymwneud â'r cynnig.

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â CThEM a'u partner Arbedion a Buddsoddiadau Cenedlaethol i ddatblygu'r gwasanaeth dwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys yr agweddau digidol ar y broses ymgeisio a darparu gweithredwyr ffôn Cymraeg i gefnogi'r elfennau o'r cynnig a ddarperir gan CThEM.

Casgliad 2

Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gynnwys Awdurdod Cyllid Cymru o ran cynghori a goruchwyllo, gan feithrin arbenigedd a phrofiad yng nghyd-destun Cymru, rhag ofn y bydd angen datblygu system bwrpasol i Gymru yn y dyfodol.

Rwyf yn cytuno ei bod yn gwneud synnwyr i swyddogion ac Awdurdod Cyllid Cymru weithio'n agos â'i gilydd. Mae'r trefniadau hyn eisoes yn eu lle.

Caiff Awdurdod Cyllid Cymru ei gynrychioli ar y Bwrdd Prosiect Iefel Swyddogol a sefydlwyd i oruchwyllo'r gwaith o ddatblygu'r trefniadau ymgeisio digidol ac nad ydynt yn ddigidol ar gyfer gweinyddu'r cynnig gofal plant. Caiff y Bwrdd hwn, ynghyd â phrosiectau perthnasol eraill megis cyflwyno cyfraddau treth incwm Cymreig, eu goruchwyllo gan Fwrdd Rhaglen Datganoli Trethi Cymru sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru a swyddogion o CThEM. Sefydlwyd y Bwrdd Rhaglen er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer y gwaith gweithredol y mae CThEM yn ei wneud i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd a meddwl yn gydgysylltiedig.

Mae'r opsiwn a ffefrir ar gyfer darparu'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra ar gyfer y cynnig gofal plant wedi'u brofi gyda chydweithwyr yn Awdurdod Cyllid Cymru, ac mae swyddogion wedi trafod y gwersi a'r profiadau o'r broses o sefydlu'r Awdurdod a'r trefniadau gweithio a oedd yn eu lle gyda CThEM yr adeg honno.

Er ein bod wedi dod i'r casgliad nad datblygu system bwrpasol i Gymru fyddai'r ffordd orau ymlaen ar hyn o bryd, mae'n parhau i fod yn opsiwn posibl ar gyfer y dyfodol ac rydym wedi ymrwymo i barhau i gael deialog agored ag Awdurdod Cyllid Cymru ar y mater hwn. Mae gan yr Awdurdod arbenigedd a galluogrwydd digidol cadarn ond byddai angen deddfwriaeth newydd i'w alluogi i weinyddu cynnig gofal plant Cymru.